OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 2068

# Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015

**Dosbarth 3**

**6.**—(1) Mae'r dosbarth ar annedd sydd wedi ei ragnodi at ddibenion y rheoliad hwn ("Dosbarth 3") wedi ei ffurfio o bob annedd—

(a) sy'n rhan o eiddo unigol sy'n cynnwys o leiaf un annedd arall; a

(b) sy'n cael ei defnyddio gan breswylydd yr annedd arall honno, neu yn ôl y digwydd, yr anheddau eraill hynny, fel rhan o'i breswylfa.

(2) At ddiben paragraff (1), ystyr "eiddo unigol" ("*single property*") yw eiddo a fyddai, ar wahân i Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992(**1**), yn un annedd o fewn ystyr adran 3 o'r Ddeddf.

(**1**) O.S. 1992/549.